Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☏ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gofal Cymru
Tŷ South Gate
Wood Street
Caerdydd , CF10 1EW

3 Tachwedd 2014

Annwyl Prif Weithredwr

Ynghylch: Adolygiad Cartref Gofal

Gweler yn yr atodiad gopi o fy adroddiad o'r Adolygiad, 'Lle i'w Alw'n Gartref?', sy'n manylu ar ganfyddiadau fy adolygiad ffurfiol i ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Dylid nodi fod yr adolygiad hwn dan embargo tan y dyddiad cyhoeddi ar 10 Tachwedd 2014.

Ymgymerwyd â'r Adolygiad gan ddefnyddio fy mhwerau statudol dan Adran 3 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a hwn yw'r darn mwyaf o waith o'i fath erioed i gael ei gyflawni yng Nghymru, ac mae lleisiau pobl hŷn a'u teuluoedd yn ganolog iddo, ynghyd â thystiolaeth helaeth gan gyrff cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector ac arbenigwyr gofal.

Fel corff statudol o dan atodiad 2 y Ddeddf, ac a enwir yn nghylch gorchwyl fy Adolygiad, hoffwn fachu ar y cyfle hwn y ddiolch i chi am eich ymatebion agored a thryloyw i fy ngheisiadau am dystiolaeth, hebddynt, ni fyddai wedi bod yn bosib cynhyrchu adolygiad na Gofynion Gweithredu mor gadarn.

Wrth ddrafftio fy Ngofynion Gweithredu, a gyhoeddir dan adran 3 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ochr yn ochr â'r rhaglenni trawsnewid polisi a gwasanaeth deddfwriaethol ar draws Cymru, i adolygu a oes camau digonol yn cael eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio gan gyrff cyhoeddus a darparwyr annibynnol. Mae fy Ngofynion Gweithredu felly yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar fy nghasgliadau cyffredinol allweddol a'r angen i weithredu ymarfer da ar hyd a lled Cymru.

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae fy Ngofynion Gweithredu yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac maent yn disgrifio'r camau sydd angen eu cymryd ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod ansawdd bywyd yn ganolog i ddarpariaeth gofal yn yr holl gartrefi gofal, ynghyd â'r effaith ar bobl hŷn os na fyddwn yn llwyddo i gyflawni hyn.

Bydd y Gofynion yr wyf yn disgwyl i chi eu hateb yn gofyn i chi ymateb erbyn 2 Chwefror 2015 yn unol â'r amserlenni a bennwyd ar gyfer eich ymateb fel y nodir yn adran 15 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Rheoliadau 2007. Mae'r cyfnod hwn o amser yn rhoi cyfle i chi drafod logisteg ac ymarferoldeb gyda fy swyddfa, a hyd yn oed i gynnig gweithrediadau amgen a all roi'r canlyniadau y disgwyliaf eu gweld ar gyfer pobl hŷn.

Dylai eich ymateb ysgrifenedig gynnwys cofnod o'r canlynol:

- Sut rydych wedi cydymffurfio; neu'n bwriadu cydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu
- Pam nad ydych chi wedi cydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu neu
- Pam nad ydych chi'n bwriadu cydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu.

Mae'n ofynnol fy mod yn cadw cofrestr o'r Gofynion Gweithredu a wneir yn fy adroddiad a'r camau a gymerir fel ymateb i hynny, a bydd modd i'r cyhoedd ei weld. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ac ar gael i unigolion ar gais, ynghyd â'm sylwadau fel Comisiynydd ynghylch a yw eich ymateb yn ddigonol wrth gydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, ynghylch y llythyr hwn neu os hoffech gysylltu â'm swyddfa i drafod sut y gallech gwrdd â'r Gofynion Gweithredu orau, cysylltwch â Daisy Cole, Cyfarwyddwr Lles a Grymuso ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cafodd y llythyr hwn ei gyhoeddi dan adran 3 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Cymru) 2006